

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y cyfarfod:	13 Hydref 2026
Aelod Cabinet:	Cyng. Huw Wyn Jones – Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog Cyswllt:	Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr a Ffion Mai Jones - Uwch Reolwr Gweithredol
Teitl yr Eitem:	Strategaeth Gyfalaf

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo:
 - ariannu £1.49M ar gyfer bwlch cyllido prosiect atal llifogydd Prom y Gogledd, Abermaw
 - ariannu bwlch cyllido o £583k ar gyfer prosiect Ysgol Bontnewydd
 - darparu £6.86M ar gyfer amlen nesaf y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy
 - darparu £4.11M ar gyfer amlen nesaf y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy ac ymateb i risgiau traffig ar safleoedd Ysgolion Uwchradd
 - dirprwyo'r hawl i gytuno ar union raniad y £4.11M rhwng gwella ysgolion uwchradd a ymateb i risgiau traffig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Addysg, Y Pennaeth Addysg a'r Pennaeth Cyllid wedi i waith pellach gael ei gwblhau.
 - dadymrwymo £3.5M o gynllun asedau presennol y cyngor, er mwyn i ryddhau i gyfrannu at yr adnoddau sydd ar gael i ariannu yr uchod.
- 1.2. Gofynnir i'r Cabinet gadarnhau ymrwymiadau eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer cynnydd costau Ysgol Tryfan (cabinet 16 Rhagfyr 2025) a chanolfan arloesi Trawsfynydd (10 Chwefror 2026).

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Ers i'r Cyngor fabwysiadu ei Gynllun Asedau yng Ngorffennaf 2024, mae cyllid cyfalaf uwchlaw yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn setliad Llywodraeth Leol wedi ei dderbyn ac angen penderfyniad ar ei ddyrannu.

3. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2024 bu i'r Cyngor Llawn fabwysiadu ei Gynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 2024-2034. [Microsoft Word - Cynllun Asedau 2024-34 f2.docx](#)
- 3.2. Wrth osod y cynllun rhagdybiwyd yr adnoddau cyfalaf tebygol a fyddai ar gael ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd (£88.2M) ac o'r holl gynlluniau a roddwyd ymlaen gan adrannau, blaenoriaethwyd y cynlluniau hynny a fyddai'n gallu cael eu cyflawni o fewn yr adnoddau ar gael.
- 3.3. Yn sgil y broses blaenoriaethu roedd nifer o gynlluniau na fu modd eu cynnwys, ac roedd cydnabyddiaeth hefyd y byddai cynlluniau yn codi yn ystod y cyfnod 10 mlynedd nad oedd yn aeddfed ar adeg paratoi y cynllun.
- 3.4. I'r perwyl hwn roedd angen i'r Cynllun fod yn un byw a hyblyg.
- 3.5. Mae'r sefyllfa adnoddau wedi newid ychydig ers i'r cynllun gael ei gymeradwyo ac mae angen ystyried pa addasiadau sydd eu hangen felly i'r Cynllun.
- 3.6. Nodwyd yn y Cynllun Asedau 2024-2034 y byddai anghenion gwario i'w cyfarch gan y Cynllun Asedau yn cael eu dynodi mewn 3 grŵp:

Rhan A: Cynlluniau y mae modd cyflawni o fewn yr amlen adnoddau sydd gennym

Rhan B: Cynlluniau lle bydd yn rhaid eu cyfarch drwy ddull arall

Rhan C: Cynlluniau lle bydd angen aros i weld a allwn ychwanegu at yr adnoddau cyfalaf fydd gennym cyn y gellir cadarnhau i ba raddau y bydd modd i ni eu cyflawni.

- 3.7. Roeddem hefyd yn ymwybodol wrth baratoi y cynllun y byddai yna gynlluniau yn codi yn ystod y cyfnod 10 mlynedd nad oedd modd eu rhagweld ac felly fe roddwyd £500k y flwyddyn o'r neilltu er mwyn cyfarch y gofynion hynny. Roedd hwn yn swm llai gan y tybiwyd mai cynlluniau bach fyddai ac y byddai'n rhaid ymdopi gyda symiau mwy drwy ystyried y cynlluniau unigol hynny a sut i'w hariannu.
- 3.8. Mae cynlluniau llai yn cael eu hystyried yn flynyddol drwy fidiau cyfalaf gan Adrannau, a'u cymeradwyo drwy adroddiad y Pennaeth Cyllid ar y Gyllideb.
- 3.9. Er hynny, mae cynlluniau eraill mwy sylweddol sydd angen ystyriaeth. Yn ogystal, nodwyd o fewn y Cynllun Asedau 2024-2034 y bwriad os daw adnoddau pellach ar gael y byddem yn blaenoriaethu'r cynlluniau na fu modd eu cymeradwyo ar y pryd yn rhan C, yn benodol cynlluniau y rhaglen dreigl ysgolion cynaliadwy a darparu cyllideb ar gyfer chynnal a chadw adeiladau y Cyngor. Mae hyn wedi ei gynnwys ym mhenderfyniad y Cyngor Llawn wrth fabwysiadu'r Cynllun Asedau ac mae'r hawl wedi ei ddirprwyo i'r Cabinet ddelio gyda'u materion hyn.

- 3.10. Mae'n briodol felly i'r Cabinet adolygu'r Cynllun presennol i geisio cyfarch yr uchod, gyda'r adnoddau newydd sydd wedi cronni ers 2024.

Adnoddau Cyfalaf newydd ar gael

- 3.11. Ers cymeradwyo'r cynllun gwreiddiol yn 2024, rydym wedi derbyn amrywiol grantiau lle roedd modd eu defnyddio yn hytrach na defnyddio'r adnoddau Cynllun Asedau gan gynnwys.
- 3.12. Mae derbyniadau cyfalaf hefyd wedi arwain at gynnydd yn yr adnoddau sydd ar gael.
- 3.13. Yn ychwanegol i hyn, mae un prosiect lle nad ydym wedi parhau fel partner i'r datblygiad gyda'r Bwrdd Iechyd a chymdeithas dai yn parhau gyda chynllun ar raddfa llawer llai gan hepgor anghenion nifer o bartneriaid gan gynnwys y Cyngor, sef Hwb Iechyd a Gofal - Canolfan Lleu.
- 3.14. Er y gwyddom bod anghenion a demograffi y boblogaeth yn debygol o arwain at yr angen am ddatblygiadau yn y maes gofal, nid oes cynlluniau sy'n ddigon aeddfed i'w cynnwys ar hyn o bryd ac felly argymhellir fod yr adnoddau cyfalaf o £3.5M sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y cynllun yn cael ei ddad-ymrwymo. Byddai unrhyw gynlluniau ac angen i'r dyfodol i'w ystyried mewn adolygiad llawn o'r Cynllun Asedau yn 2029.
- 3.15. Gyda hynny mewn golwg bydd yr adnoddau oedd wedi eu neilltuo ar gyfer y prosiect hwn yn dod ar gael ar gyfer yr anghenion newydd sydd wedi eu cyflwyno.
- 3.16. O ystyried hyn oll mae yna gyfanswm o £16M ar gael i'r Cabinet ystyried sut maent am ei ddefnyddio i gyfarch yr anghenion gwario cyfalaf ar draws y Cyngor.

Anghenion Gwariant Cyfalaf

Cynlluniau lle nad oedd modd eu hariannu wrth osod Cynllun Asedau yn 2024

- 3.17. Ar adeg llunio y Cynllun Asedau yn 2024, roedd dau broblem na fu modd eu cyfarch, sef Cynnal a chadw adeiladau a'r wedd nesaf o rhaglen dreigl ysgolion cymunedau cynaliadwy.
- 3.18. Bu ychwanegiad i'r gyllideb craidd Cynnal a Chadw wrth osod cyllideb 2026-27 ac mae'r cais gwreiddiol hwn felly wedi ei ddatrys tu allan i drefn y Cynllun Asedau ac ni fydd yn derbyn sylw pellach yma ar hyn o bryd.
- 3.19. Mae'r amlen nesaf o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru dros gyfnod o 9 mlynedd, felly os am ymgeisio am y grant o 65% gan y Llywodraeth roedd gofyn i'r Cyngor gyflwyno Rhaglen Strategol Amlinellol ar gyfer y wedd nesaf o arian cyfalaf. Nid oedd modd ymrwymo i arian cyfatebol wrth osod y cynllun asedau ddwy flynedd yn ôl ac felly mae cyfle i wneud yn yr adolygiad hwn. Manylir ar elfennau penodol yn 2.24 isod.

Cyfarch cynnydd costau prosiectau eisoes o fewn y Cynllun Asedau

3.20. Cryfhau'r ddarpariaeth Addysg Gymraeg Uwchradd ym Mangor – Ysgol Tryfan.

Un o brosiectau'r Cynllun Asedau cyfredol yw i gryfhau'r ddarpariaeth Addysg Gymraeg Uwchradd ym Mangor gyda £5.2M eisoes wedi ei glustnodi fel arian cyfatebol (35%) i ddenu grant Llywodraeth Cymru. Ymhellach i hynny mae'r adran wedi adnabod ffynhonnell benthyca ar gyfer £1.1M ychwanegol. Yn sgil cynnydd yng nghostau'r prosiect mae'r Cabinet eisoes wedi ymrwymo i £1.96M yn ychwanegol ar gyfer y prosiect yma.

3.21. Prom y Gogledd, Abermaw.

Pan gafodd y cynllun yma ei ystyried yn gyntaf gofynnwyd am gyfraniad o 15% tuag at gostau lefel uchel oddeutu £23M ar gyfer gwaith atal llifogydd ar Brom y Gogledd yn Abermaw, ble mae dros 700 o dai mewn risg o lifogydd arfordirol. Yn dilyn gwaith i ddatblygu y cynllun, ymddengys fod y gost tebygol yn llawer uwch ac yn agosach at £35M. Er fod y gwaith hyn yn parhau ac nad yw'r union ffigwr yn derfynol, mae angen i ni baratoi ar gyfer costau sylweddol uwch na'r £23M gwreiddiol. Gan nad yw'r gost yn derfynol, dylem fod yn ceisio clustnodi cyfraniad tuag at gynllun oddeutu £35M, sef £5.25M. Gan fod £3.76M yn y Cynllun Asedau yn barod, mae angen clustnodi £1.49M pellach yn yr adolygiad hwn.

Cyfarch materion mae rhagdybiaeth eisoes wedi ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf y byddant yn cael eu hariannu o'r Cynllun Asedau

3.22. Ysgol Bontnewydd

Bu i Llywodraeth Cymru gyhoeddi buddsoddiad o £15M (grant wedi ei gyllido 100%) ar gyfer adeiladu ysgol newydd arloesol ac ecogyfeillgar i Ysgol Bontnewydd. Mae cost y cynllun bellach wedi codi i £17.67M, sydd yn uwch na'r hyn gytunwyd a'r cyfanswm mae'r Llywodraeth yn gallu ei ariannu. Mae angen i Wynedd gyfrannu £583,000 os am allu cario mlaen, sef 35% o'r gost ychwanegol. Mae sawl ffactor technegol wedi arwain at gynnydd yn y gost, gan gynnwys chwyddiant dros amser hirach na'r hyn ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Mae creu'r ysgol "dros dro" er mwyn symud y plant allan wedi bod yn fwy costus na'r disgwyl hefyd.

Mae'r cynnig ariannol yn dal i fod yn gyfle gwych, gyda'r Llywodraeth yn parhau i ariannu 97% o'r gost a Gwynedd yn cyfrannu 3%.

3.23. Canolfan arloesi Trawsfynydd

Mae Cynllun Canolfan Arloesi Trawsfynydd yn gyfle strategol i Gyngor Gwynedd gefnogi adfywio economaidd yn ardal Meirionnydd drwy ddatblygu safle canolfan ymwelwyr Trawsfynydd fel canolfan ar gyfer arloesi, hyfforddi a swyddi gwerth uchel i'r dyfodol. Mae'r Cynllun yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor o greu cyfleoedd gwaith lleol, cadw sgiliau o fewn y sir a manteisio ar botensial economaidd safle Trawsfynydd. Er mwyn galluogi'r prosiect i symud ymlaen a denu cyllid grant allanol sylweddol, mae'r Cabinet eisoes wedi ymrwymo £1M o arian cyfatebol yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2026 o adnoddau ychwanegol.

Ceisiadau am adnodd ychwanegol

3.24. Rhaglen dreigl Ysgolion Cymunedau Cynaliadwy

3.24.1. Ar hyn o bryd, wedi i'r prosiectau Gwedd B o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif a datblygiad Ysgol Bontnewydd ddod i derfyn, nid oes unrhyw adnoddau cyfalaf ychwanegol wedi eu hymrwymo i alluogi buddsoddiad sylweddol yn stad ein hysgolion i'r dyfodol. Mabwysiadwyd Strategaeth Ysgolion newydd gan y Cabinet ar 10 Chwefror 2026 a thra bod trafodaethau am flaenoriaethau ac anghenion buddsoddi strategol yn parhau, rhagwelir y byddai cynllun ad-drefnu a moderneiddio angen sicrhau cyllideb oddeutu £6.86M fel 35% o arian cyfatebol i ddenu grant Llywodraeth Cymru o 65%. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda chi fel aelodau Cabinet ynghylch manylder y rhaglen a blaenoriaethu dros y cyfnod nesaf.

3.24.2. Argymhellir hefyd clustnodi swm o fewn yr adnoddau sydd ar gael er mwyn galluogi'r Adran Addysg i symud ymlaen â gwaith datblygu strategol ar opsiynau i ymateb i heriau hysbys o fewn y stad ysgolion. Nid yw hyn yn ymrwymo'r Cyngor i unrhyw gynllun unigol ar hyn o bryd, ond bydd yn galluogi gwaith pellach i asesu anghenion, datblygu opsiynau, ystyried cyfleoedd cyllido allanol a chyflwyno achos busnes mwy cyflawn i'r Cabinet cyn gwneud unrhyw benderfyniadau gweithredu penodol. Wrth gyflwyno costau lefel uchel ar gyfer cynllun o'r fath, mae'r adran wedi ymgeisio am £6.17M.

3.24.3. Gwyddom hefyd fod materion yn ymwneud a thraffig ar safleoedd addysgol yn heriol ac yn derbyn sylw gan yr adran ar hyn o bryd. Os am allu gwireddu cynllun bydd angen sicrhau arian cyfalaf ac mae'r adran wedi ymgeisio am £1.7M i'r perwyl hwn.

4. Casgliadau

4.1. Gellir crynhoi'r galw uchod am adnoddau cyfalaf ychwanegol fel a ganlyn:

Prosiect	Swm ychwanegol	Cyfraniadau allanol
Ysgol Tryfan, Bangor – cynnydd mewn costau – 35% arian cyfatebol i ddenu grant Penderfyniad wedi ei ragdybio eisoes gan y Cabinet ar 16/12/25	£1.96M	£3.64M

Prom y Gogledd, Bermo – cynnydd mewn costau – 15% arian cyfatebol i ddenu grant Prosiect eisoes o fewn y Cynllun Asedau.	£1.49M	£8.45M
Ysgol Bontnewydd – cyfraniad 35% tuag at gynnydd mewn costau – datblygiad oedd wedi ei dalu â grant Llywodraeth Cymru.	£583k	£16.1M
Canolfan Arloesi Trawsfynydd – cyfraniad Cyngor Gwynedd i ddenu grant. Penderfyniad wedi ei ragdybio eisoes gan y Cabinet ar 10/02/26	£1M	Denu £18.45M o amryw ffynonellau cyllido
Rhaglen Dysgu Cymunedau Cynaliadwy – 35% o arian cyfatebol i ddenu grant	£6.86M	£12.74M
Prosiect Rhaglen Dysgu Cymunedau Cynaliadwy - 35% o arian cyfatebol i ddenu grant	£6.17M	£11.74M
Ymateb i heriau traffig ysgolion	£1.7M	-
CYFANSWM	£19.76M	

- 4.2. O gofio mai £16M o adnodd ychwanegol sydd ar gael ar hyn o bryd nid oes modd cyllido'r cyfan ac felly bydd rhaid blaenoriaethu.
- 4.3. Mae cynnydd costau cynlluniau oedd eisoes yn y Cynllun Asedau yn golygu'r angen i ymrwymo £3.45M pellach os am gario 'mlaen i'w gwireddu. Yn achos Ysgol Tryfan, mae'r Cabinet eisoes wedi rhoi'r ymrwymiad i'r arian hwnnw.
- 4.4. Mae rhagdybiaeth eisoes wedi ei wneud ar gyfer Ysgol Bontnewydd a Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd ar gost o £1.58M.
- 4.5. Mae hyn yn gadael £10.97M heb ei ymrwymo ar gyfer cyfarch anghenion gwario o £14.73M yn y maes Addysg, sef £3.76M yn brin o'r cyllid sydd ei angen.
- 4.6. O ystyried y cynlluniau unigol uchod, risgiau perthnasol a blaenoriaethau strategol y Cyngor, argymhellir y dylid cyfarch y gost llawn o gynllun blaenoriaeth yn yr amlen nesaf y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy (£6.86M) gan na fyddai'n synhwyrol ceisio cyfarch y cynllun yn rhannol.

- 4.7. Mae hynny'n gadael £4.11M yn weddill ar gyfer ail gynllun yn y rhaglen dreigl ysgolion cymunedau cynaliadwy ac ymateb i risgiau traffig Ysgolion. Mae angen gwaith pellach i gyfrifo union gostau'r gwaith yma, ac yn achos y risgiau traffig mae angen gwell dealltwriaeth o'r gwir risgiau a'r opsiynau amgen ar gyfer eu cyfarch. Argymhellir felly fod y blaenoriaethu terfynol yn digwydd ar ôl y gwaith pellach gael ei gyflawni a bod yr hawl i gytuno'r union raniad yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Addysg, y Pennaeth Addysg a'r Pennaeth Cyllid.
- 4.8. Bydd rhaid derbyn na fyddwn yn gallu cyllido'r cyfan o'r gofynion uchod gan nad yw'r adnoddau cyfalaf gennym. Fodd bynnag, dylai Aelodau fod yn ymwybodol fod y Cyngor yn derbyn grantiau blynyddol gan y Llywodraeth tuag at gyflwr adeiladu addysg. Er nad oes gwarant o'r grant hwn, ac nid yw'n ffigwr cyson ychwaith, gallwn fod yn ffyddiog y bydd symiau newydd yn ein cyrraedd yn flynyddol. Gellir ystyried ychwanegu'r arian grant yma tuag at geisio cyflawni'r gwaith uwchradd a risgiau traffig felly.
- 4.9. Gellir crynhoi'r argymhelliad terfynol o ran dyrannu'r cyfalaf ychwanegol o £16M fel a ganlyn:

Cynnydd costau cynlluniau oedd eisoes yn y Cynllun Asedau	£3.45M
Rhagdybiaeth eisoes wedi ei wneud	£1.58M
Amlen nesaf y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy	£6.86M
Prosiect pellach o fewn y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy ac ymateb i risgiau traffig Ysgolion	£4.11M

5 SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL

Pennaeth Cyllid

"Gallaf gadarnhau fod cyfrifwyr o'r Adran Gyllid wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi agweddau ariannol o'r adroddiad yma ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir."

Swyddog Monitro

"Mae'n briodol fod y Cabinet yn adolygu y rhaglen cyfalaf i ymateb i newidiadau ac anghenion ychwanegol neu wahanol sydd wedi datblygu."